*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Polisi Ymddygiad Dysgwyr

## Cwmpas a Diben y Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Coleg - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi'r Coleg i weithio tuag at ein hysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf.  Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Goleg Caerdydd a'r Fro fod yn rhydd rhag gwahaniaethu.

- Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i'w galluogi i gyflawni eu potensial a'u Hannibyniaeth tra maent yn y Coleg, mewn amgylchedd sy'n lleihau bod dan anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.

- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu'n llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

**Diben y polisi hwn yw:**

- Sicrhau fframwaith teg a chyson lle mae ymddygiad positif yn cael ei annog a'i gydnabod, a lle gellir datrys materion disgyblu o fewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol.

- Annog dull Coleg cyfan o ran materion sy'n berthnasol i gynhwysiant ac arferion lle mae'r person yn ganolbwynt wrth ddelio gyda materion rheoli ymddygiad a hyrwyddo perthnasoedd gweithio da rhwng yr holl staff a'r dysgwyr.

- Darparu eglurder o ran yr ymddygiadau a ddisgwylir gan ddysgwyr a staff.

- Pennu'r gweithdrefnau, canllawiau a chefnogaeth i'r holl staff wrth ddelio â materion sy'n gysylltiedig â rheoli ymddygiad a/neu gynnydd academaidd gwael.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr ar bob rhaglen ddysgu ni waeth beth fo'i ddull neu leoliad astudio.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, p'un ai o fewn rôl academaidd neu rôl busnes o fewn y Coleg.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'n holl sefydliadau partner ac etholfraint.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ymwelwyr y coleg.



| | |
|---|---|
| **Rhif Adolygiad:** | 7 |
| **Dyddiad Adolygu:** | 06/24 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 06/26 |

## Datganiadau Polisi

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Ddatblygu gweithdrefnau i amlinellu sut fydd gofynion y polisi yn cael eu bodloni mewn ymarfer ac a fydd yn cyfateb yn llawn i ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig.

- Amlinellu rolau a chyfrifoldebau fel rhan o'r gweithdrefnau cysylltiedig.

- Hyfforddi'r holl staff yn llawn ar y gweithdrefnau cysylltiedig â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n sail iddynt; bydd yr hyfforddiant ar lefel addas i'w rôl.

- Hysbysu pawb sy'n cael eu heffeithio gan y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig o'u cynnwys, ynghyd â'u goblygiadau; bydd hyn yn cynnwys partneriaid a sefydliadau breiniol.

- Darparu'r adnoddau perthnasol er mwyn gallu cyflawni'r gweithdrefnau cysylltiedig yn effeithiol ac effeithlon.

- Cofnodi a monitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a'i weithdrefnau, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw ofynion allanol megis deddfwriaeth, canllawiau a.y.y.b.

- Adolygu'r data uchod i roi ystyriaeth i effeithiolrwydd y polisi hwn a'i weithdrefnau i gefnogi gwelliant parhaus.

Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr, ar bob lefel a math o ddarpariaeth, yn cael ei gyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwylio darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu gywiro, megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn).

## Cyfrifoldebau

**Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:**

- Y Polisi yn cael ei adolygu'n rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys.

**Bydd yr Uwch Dîm Arwain a Gweithredol yn gyfrifol am:**

- Fod â chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod trefniadau ar gyfer cefnogi a rheoli ymddygiad yn effeithiol ac yn hyrwyddo cynhwysiant ar draws y coleg. Datblygu trefniadau llywodraethu effeithiol a sicrhau bod polisïau perthnasol wedi'u sefydlu ar draws y coleg.

**Mae disgwyl i'r holl staff:**

- Sicrhau bod y polisi hwn a'r gweithdrefnau ynghlwm wrtho yn cael eu rhoi arwaith yn effeithiol ar draws y Grŵp.
- Sicrhau bod systemau yn eu lle er mwyn cadw cofnodion manwl, cywir a diogel o bryderon ynghylch ymddygiad a digwyddiadau.
- Ymgymryd â hyfforddiant priodol a diweddariadau o ran gwybodaeth.
- Gweithio mewn dull cydweithredol er mwyn sicrhau arfer person ganolog a bod ymddygiad ar draws y coleg yn gyson ac yn gadarn.
- Darllen a deall y polisi a gweithdrefn Ymddygiad a deall y gweithdrefnau cofnodi ar gyfer eu sefydliad perthnasol o fewn y Grŵp. Dylai staff ddarllen y polisi hwn ar y cyd gyda'r Polisi a Gweithdrefn Parod i Ddysgu a fydd yn cael ei roi ar waith mewn achosion lle mae ymddygiad dysgwr angen ei reoli mewn modd sensitif yn hytrach na thrwy gymryd camau disgyblu.
- Bod yn ymwybodol o arwyddion a symptomau posib o gam-drin.
- Deall bod ymddygiad yn gyfrifoldeb i bawb.

**Disgwylir i bob dysgwr:**

- Fynychu sesiwn sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi'r Polisi, gan gynnwys mynegi unrhyw bryderon i aelod o staff dysgu neu gefnogi, er mwyn eu galluogi i gael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

## Deddfwriaeth ac Arweiniad

Dim

## Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y polisi hwn.

## Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r cyfrifoldebau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

## Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Dim yn gysylltiedig gyda'r polisi hwn.

**Gweithdrefnau Cysylltiedig**

- Ymddygiad y Dysgwr
- Bwlio ac Aflonyddu
- Cwynion a Chanmoliaeth
- Barod i Ddysgu
- Camddefnyddio Sylweddau
- Iechyd a Diogelwch
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu

## Lleoliad a Chael Mynediad i'r Polisi

Mae hwn ar gael ar y wefan a phorth y staff, ac efallai na fydd yn gyfredol os caiff ei hargraffu.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo: 19 Mehefin 2024** | **Rheolwr Cyfrifol: Uwch Bennaeth Taith y Dysgwr a Dysgu Cynhwysol** |
| **Cymeradwywyd gan: Y Prif Fwrdd** | **Arweinydd Gweithredol: Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu** |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf: 19 Mehefin 2026** | **Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy** |